



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Annog defnydd o'r Gymraeg yn fewnol

Menter [Fy Addewid Cymraeg](#) Comisiynydd Plant Cymru

Medi 2021

Yn ddiweddar, fe luniodd staff sy'n gweithio i Gomisiynydd Plant Cymru gynllun fyddai'n cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y sefydliad. Cafodd '[Fy Addewid Cymraeg](#)' ei greu a'i fabwysiadu fel ffordd o gynnal y cynnydd yn nefnydd siaradwyr rhugl a dysgwyr o'r iaith Gymraeg.

Ar gyfer pob un o'r pedair lefel o hyfedredd yn y Gymraeg, mae pedwar addewid i aelodau staff ddewis faint bynnag yr hoffent ohonynt. Mae'r addewidion yn weithredoedd neu'n ymddygiadau penodol sy'n galluogi'r defnydd o'r Gymraeg.

Maent oll yn weithredoedd cadarnhaol, er enghraifft:

- 'Cael hyd i gyfaill sy'n ddysgwr lefel uwch neu'n rhugl rwy'n gyfforddus i siarad gyda nhw'.
- 'Bod yn amyneddgar a deall os bydd rhywun yn cymryd sbel i ymateb neu'n ymateb yn Saesneg'.

Yn unol ag ysbryd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bwriad y cynllun yw i hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg a sicrhau bod y sefydliad yn un gynhwysol, cefnogol ac amyneddgar gyda phob dysgwr.

Cefndir

Ar 31 Mawrth 2021 roedd 26 o aelod o staff yn cael eu cyflogi yn swyddfa'r Comisiynydd. O'r 26 o bobl oedd yn cael eu cyflogi, mae 9 yn disgrifio'u hunain fel rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg; 5 yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg; a mae 4 yn disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau lefel ganolraddol yn y Gymraeg. Yn sgil buddsoddiad arwyddocaol (arian ac amser) i gefnogi'r iaith Gymraeg, mae'r sefydliad wedi gweld cynnydd eisoes yn eu hyder fel swyddfa ddwyieithog wrth i'r iaith ddod yn gyfrwng naturiol ar gyfer cyfathrebu rhwng cydweithwyr. Roedd agwedd gadarnhaol at yr iaith Gymraeg eisoes yn bodoli o fewn eu diwylliant waith ac roedd staff yn awyddus adeiladu ar hyn, yn enwedig cynnig cefnogaeth i'w cydweithwyr.

Ym mis Mawrth 2020, er mwyn atal lledaeniad COVID-19, daeth yn ofynnol i staff Comisiynydd Plant Cymru weithio o'r cartref ar eu pennau hunain yn hytrach nag o'u swyddfa ym Mhort Talbot. Cafodd hynny effaith andwyol ar y cyfleoedd oedd gan bobl i siarad Cymraeg efo'i gilydd mewn cyd-destun anffurfiol.

Fe nododd y grŵp llesiant staff bod llai o gyfleoedd i siarad Cymraeg ar hap yn peri risg i'r cynnydd oedd wedi'i wneud hyd yma i'r defnydd o'r iaith. Roeddent yn awyddus i barhau i ddatblygu eu hyder fel gweithle dwyieithog sy'n galluogi holl staff ac ymwelwyr i ddefnyddio'u sgiliau yn y Gymraeg waeth beth oedd lefel eu gallu yn yr iaith.

Y gwaith a wnaethpwyd

Datblygwyd 'Fy Addewid Cymraeg' gan y grŵp llesiant staff oedd wedi adnabod y bwlch ac fe'i gymeradwywyd gan y tîm rheoli ar gychwyn 2021. Mae'r addewidion a wneir wedi'u cynnwys o fewn trafodaethau datblygiad proffesiynol parhaus pob aelod o staff yn ystod cyfarfodydd gwerthuso aelodau'r staff ers Ebrill yr un flwyddyn.

Nid oedd y fenter wedi peri unrhyw gostau nac anghenion hyfforddiant ychwanegol.

Canlyniadau hyd yma

Fel menter newydd, bydd angen caniatáu cyfnod hirach cyn asesu'n fanwl ond mae wedi bwrw gwreiddiau. Maent yn adrodd y canlyniadau a ganlyn:

- defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol;
- cynnydd bychan yn nifer mynychwyr y gwersi Cymraeg lefel uwch;
- mae paru siaradwyr rhugl a dysgwyr wedi cychwyn gweithio'n dda;
- mae un dysgwr lled-rugl wedi cychwyn ddefnyddio'u Cymraeg mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol gyda llawer mwy o hyder.

Maent hefyd yn adrodd sut y bu'r gweithlu yn unfrydol gadarnhaol am y fenter.

Sut gall hyn weithio i sefydliadau eraill?

Barn Comisiynydd Plant Cymru yw mai'r mentrau llesiant a rheoli pobl mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sy'n cael eu perchnogi a'u llywio gan staff yn hytrach na rhai sy'n cael eu gwthio i lawr gan y tîm rheoli.

Gellir mabwysiadu'r fenter fel y mae neu addasu i'w wneud yn fwy uchelgeisiol a chael dewis ehangach. Gellir hefyd trefnu'r addewidion yn ôl faint o ymrwymiad ydynt a hyd yn oed cael trefn flynyddol ble enwebir pobl yn seiliedig ar eu llwyddiannau a'u gwobrwyo.

Fe ymddengys bod ennyn brwdfrydedd y gweithlu ac ymgynghori yn eang yn allweddol i'r llwyddiant ynghyd â sicrhau cymeradwyaeth ac ymrwymiad gan y tîm rheoli i'w gynnal ac i gymryd rhan. Er hynny, mae'n bosib i sefydliadau mawr gynnal Fy Addewid Cymraeg o fewn un neu fwy o adrannau neu addasu'r addewidion yn ddibynnol ar natur y gwaith.

Manylion cyswllt

Sefydliad: Comisiynydd Plant Cymru

E-bost: post@complantcymru.org.uk

Swyddog cyswllt: Amanda Evans

Barn Comisiynydd y Gymraeg

Dylai menter o'r fath ffurfio rhan greiddiol o bolisi sefydliad ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnydd o'r iaith dan ofynion y safon honno (safon 94 yn [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 2\) 2016](#)).

Bydd y ffaith fod y Comisiynydd Plant ei hun, Sally Holland, ynghyd â swyddogion eraill, wedi llwyddo i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl tra'n cyflawni rôl gyhoeddus yn sicr yn ysbrydoliaeth i weddill y gweithlu.

Mae arolygon defnydd iaith Gymraeg y gorffennol wedi dangos inni bod angen hwyluso sefyllfaoedd ar brydiau fel bod pobl yn teimlo yn gyfforddus i ddefnyddio'r iaith a chymhelliant i wella eu sgiliau ac ymarfer eu Cymraeg. Dyma enghraifft effeithiol o hynny yn y gweithle.